**Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar strategaeth sgiliau a chyflogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru*.**

## Cyflwyniad

1. Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgynghoriad ar ei strategaeth sgiliau a chyflogaeth *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru* ar 17 Ionawr 2008. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 10 Ebrill 2008.

2. O gofio mai nod y strategaeth yw ymateb i adroddiad yr Arglwydd Leitch *Prosperity for all in the global economy – world class skills* a gyhoeddwyd ar ddiwedd 2006, ac mai dyma ymateb cychwynnol (gweler paragraff 2.26 o'r ddogfen ymgynghori), i'r argymhellion yn adolygiad Syr Adrian Webb, *Addewid a Chyflawniad – Yr Adroddiad ar yr Adolygiad Annibynnol o Genhadaeth a Phwrpas Addysg Bellach yng Nghymru,* a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2007, gwnaeth y Pwyllgor gais am gyfle i graffu ar waith Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad a dylanwadu ar ddatblygiadau polisi yn y maes hanfodol hwn. Mae'r hyn sy'n ymddangos fel diffyg manylder ac amserlennu yn y ddogfen wedi siomi rhai ohonom.

3. Yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2008, craffodd y Pwyllgor Menter a Dysgu ar waith John Griffiths AC, y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, a Stephen Martin, Cyfarwyddwr y rhaglen O Fudd-dal i Waith yn yr Adran Gwaith a Phensiynau. Yn ystod y cyfarfod, gwnaethom gais am ragor o wybodaeth gan y Gweinidog, a atodir yn Atodiad 1. Yn ogystal, cyflwynodd y tystion femoranda ysgrifenedig, a atodir yn Atodiad 2. Gwelir y trawsgrifiad o'r dystiolaeth a roddwyd ar lafar yn Atodiad 3. Er gwybodaeth, atodir hefyd y trawsgrifiad o'r ddadl a gynhaliwyd ar yr ymgynghoriad yn y Cyfarfod Llawn ar 4 Mawrth 2008.

4. Yn ei femorandwm ysgrifenedig i'r pwyllgor, dywedodd y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau fod ei strategaeth yn nodi 'agenda ddiwygio gydlynus ar gyfer addysg a hyfforddiant ar bob lefel.' Rhestrodd hefyd ei bedwar cynnig allweddol:

- *Dulliau newydd o ariannu*, gan gynnwys polisi cyfraniadau a fydd yn sicrhau bod y cyllid cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio yn y mannau lle gall gael yr effaith fwyaf ac adlewyrchu'r egwyddor o gyfrifoldeb ar y cyd am wella sgiliau.
- Mwy o *gymorth busnes a sgiliau a all ymateb yn well i'r galw*, gyda rôl gryfach i'r Cynghorau Sgiliau Sector, cymwysterau galwedigaethol diwygiedig a gwasanaethau cydlynus ar gyfer busnesau.
- *Gwasanaethau sgiliau a chyflogaeth integredig* sy'n cynnig cymorth hyblyg a chynhwysfawr ar gyfer pobl y tu allan i'r farchnad lafur, a ddarperir drwy bartneriaeth rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r Adran Gwaith a Phensiynau.
- *Ailgyflunio* i greu rhwydwaith dysgu sydd â'r capasiti, y raddfa a'r ansawdd i ddarparu ar gyfer sgiliau'r dyfodol.

5. Mae'r adroddiad canlynol yn crynhoi'r prif faterion a drafodwyd a dyma yw ymateb y pwyllgor i'r ymgynghoriad. Ei nod yw tanlinellu'r heriau gwirioneddol sy'n wynebu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y maes hwn a cheisio codi proffil y prif gamau gweithredu y mae'r pwyllgor o'r farn y dylai'r Llywodraeth eu cymryd. **Gellir gweld crynodeb o'r argymhellion ar dudalennau 9-10.**

### Yr agenda ehangach

6. Cydnabyddir yn eang bod angen y sgiliau perthnasol ar weithlu'r wlad er mwyn llywio'r economi. Gall gweithwyr, cyflogwyr a chymunedau oll elwa ar ddarpariaeth addysg a hyfforddiant ragorol a phriodol. Os yw Cymru am gael dyfodol llewyrchus a bod yn gystadleuol mewn economi fyd-eang sy'n gynyddol seiliedig ar wybodaeth, credwn y dylai'r ddarpariaeth honno ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau a chynyddu gweithgarwch economaidd.

### *Leitch*

7. Nod Adolygiad Leitch oedd ystyried anghenion sgiliau hirdymor y DU. Canfu'r Adolygiad y byddai sail sgiliau'r DU yn parhau i lusgo y tu ôl i lawer o wledydd cymharol erbyn 2020, hyd yn oed os bodlonir y targedau presennol i wella sgiliau, hynny yw, byddai'r DU yn rhedeg i sefyll yn ei hunfan. Roedd yr Adolygiad yn argymell y dylai'r DU ymrwymo i ddod yn arweinydd y byd o ran sgiliau erbyn 2020, wedi'u meincnodi yn erbyn chwarter uchaf y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. Byddai hyn yn golygu dyblu'r cyrhaeddiad ar gyfer y rhan fwyaf o lefelau.

8. Yn unol â'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol, dyma restr Leitch o'r lefelau sgiliau:

- Ystyr sylfaenol yw sgiliau llythrennedd a rhifedd a ddefnyddir yn gyffredinol;
- Mae Lefel 2 yn cyfateb i 5 gradd TGAU da;
- Mae Lefel 3 yn cyfateb i 2 radd Safon Uwch;
- Mae Lefel 4 yn cyfateb i radd prifysgol (neu gyfatebol yn alwedigaethol);
- Mae Lefel 5 yn cyfateb i gymhwyster ôl-radd.

9. Roedd gan y pwyllgor ddiddordeb arbennig yn y cynnig i newid y cydbwysedd sgiliau canolradd o Lefel 2 i Lefel 3, gan gynnwys gwella enw da, nifer ac ansawdd sgiliau canolradd. Gwnaethom gais am ymateb gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o ran codi'r meincnod hwn. Dywedodd y Dirprwy Weinidog y bydd yn ymateb, ar ôl ystyried barn y rhai a fydd yn ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys y pwyllgor. **Cytunwn mewn egwyddor y dylid codi'r meicnod ar gyfer sgiliau canolradd o lefel 2 i lefel 3 a chan gydnabod y gallai hyn beri anawsterau i rai sectorau, argymhellwn y dylai'r Dirprwy Weinidog**

**gynnwys yr uchelgais hwn yn ei gynllun gweithredu sgiliau newydd a nodi amserlen glir ar gyfer ei gyflawni.**

***Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau a Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru***

10. Caiff Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau a Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru eu sefydlu er mwyn cyflawni un o brif argymhellion adolygiad Leitch. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym y byddai'r cyrff hyn yn rhoi mwy o rym i lais cyflogwyr o fewn y Llywodraeth ac yn gwneud argymhellion ar integreiddio cyflogaeth, sgiliau, cymorth busnes a pholisïau eraill.

11. Byddai rhai ohonom wedi dymuno gweld cynrychiolydd busnes adnabyddus yn cadeirio Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru, a hynny er mwyn hwyluso a hyrwyddo'r dull o ymateb yn ôl y galw o safbwynt y cyflogwyr. Fodd bynnag, o ganlyniad i gyhoeddiad y Dirprwy Weinidog yn ystod dadl y Cyfarfod Llawn a gynhaliwyd yn ystod yr wythnos ar ôl y sesiwn graffu, rydym yn estyn croeso cyffredinol i benodi Syr Adrian Webb yn gadeirydd y bwrdd.

12. Fel Cadeirydd bwrdd Cymru, bydd Syr Adrian yn aelod o Gomisiwn y DU, yn cynrychioli buddiannau Cymru a chyda'r nod o sicrhau bod Comisiwn y DU yn deall gwirioneddau bywyd economaidd-gymdeithasol Cymru yn llawn. Gofynnwyd a fyddai cael dim ond un cynrychiolydd ar Gomisiwn y DU yn ddigon. **Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i gynyddu cynrychiolaeth Cymru ar Gomisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau.**

***Webb***

13. Sefydlwyd Adolygiad Webb i gynnal adolygiad o'r sector addysg bellach yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys dadansoddiad o ddatblygiadau ym maes addysg 14-19; bod yn ymatebol i anghenion sgiliau cyflogwyr a'r economi; dysgu ar gyfer oedolion, cyfiawnder cymdeithasol ac ymgysylltu â'r gymuned; y cydgysylltiad â'r ddarpariaeth addysg uwch ac anghenion dysgwyr ôl-14 yng Nghymru a'r ymateb i hynny.

14. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar saith ffactor allweddol sy'n llywio newid: hawliau dysgwyr; dylanwad cyflogwyr; sgiliau; ansawdd; arian; ail-gyflunio a llywodraeth.

15. Barn Webb oedd y byddai angen trefniadau strwythurol gwell ar gyfer darparu cyfleoedd dysgu er mwyn cyflawni'r amcanion. Byddai angen strwythurau i gyfuno arweiniaeth a darpariaeth leol â chydweithredu effeithiol a chyfeiriad polisi clir. Byddai angen y strwythurau hyn i ganiatáu amrywiaeth a dewis, gwell ansawdd a mwy o effeithlonrwydd wrth i niferoedd ddisgyn. Byddai'r system yn cynnwys fframwaith gynllunio a chomisiynu newydd a chonsortia o

ddarparwyr a fyddai'n darparu cyfleoedd dysgu ar draws ardaloedd daearyddol.

16. Nodwyd anghysonderau rhwng y strategaeth a'r cynigion allweddol yn adolygiad Webb, yn arbennig o ran y Gronfa Blaenoriaethau Sector. **Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi ymateb clir a llawn i adolygid Webb cyn gynted â phosibl, gan nodi beth yw'r gwahaniaethau rhwng ei strategaeth sgiliau a chyflogaeth ei hun ac argymhellion yr adolygiad.**

### Targedau cyflogaeth

17. Mae dogfen Cymru'n Un Llywodraeth y glymblaid yn cynnwys y nod hirdymor o sicrhau cyflogaeth lawn yng Nghymru, neu gyfradd gyflogaeth o 80 y cant o'r boblogaeth oedran gweithio. Rydym yn cydnabod bod hyn yn mynd y tu hwnt i'r targed o 75 y cant a nodwyd yn agenda Lisbon. Byddai'r targed o 80 y cant yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogi 150,000 o bobl ychwanegol o oedran gweithio yng Nghymru. Mae 71,000 o bobl yn ddi-waith yng Nghymru ar hyn o bryd neu 5.1 y cant o'r gweithlu, sydd yn is na chyfartaledd y DU, a 439,000 o bobl o oedran gweithio yn economaidd anweithgar.

18. Gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog ac i'r Adran Gwaith a Phensiynau a oes amserlen bendant i'r targed hwn. Fodd bynnag, cyfeiriodd y ddau ato fel targed hirdymor neu uchelgais ar gyfer cyflogaeth lawn ac nid oedd yr un fodlon ymrwymo i amserlen bendant. **Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ailystyried ei barn ar beidio â chyhoeddi amserlen bendant o ran ei nod hirdymor o sicrhau cyflogaeth lawn ac yn cyhoeddi amserlen bendant yn ei chynllun gweithredu**.

### Anweithgarwch economaidd

19. Mae'r Pwyllgor yn croesawu datganiad y Dirprwy Weinidog bod anweithgarwch economaidd yn parhau i fod yn her fawr. Cofnodwyd ein pryder difrifol bod gan Gymru lefelau uchel o anweithgarwch a lefelau isel o ran sgiliau. Yn ogystal â hynny, nid yw'r ffaith bod y bwlch mewn anweithgarwch economaidd rhwng Cymru a Lloegr wedi haneru dros y blynyddoedd diwethaf yn berthnasol iawn, o gofio bod y sefyllfa gyffredinol wedi gwaethygu yn ystod y 12 mis diwethaf.

### *NEET*

20. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym y byddai'r Llywodraeth yn paratoi strategaeth benodol ar gyfer pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Cawsom ein hysbysu y bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar y grŵp oedran 16-18 oed ac yn ystyried nodweddion y grŵp a'r rhwystrau sy'n wynebu pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Fodd bynnag, roedd y pwyllgor yn bryderus, fodd bynnag, bod y dull hwn yn ymddangos fel pe bai'n

cydnabod y bydd NEET yn rhan barhaol o'r gweithlu, yn hytrach na dadansoddi'r rhesymau pam eu bod yn gadael y system addysg. Atgyfnerthodd y Dirprwy Weinidog ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael â'r broblem hon drwy amrywiaeth o bolisïau a rhaglenni addysg y Llywodraeth, gan gynnwys ehangu'r dewis ym maes addysg alwedigaethol a Bagloriaeth Cymru. **Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn mynd i'r afael â'r angen i ddiwygio'r cwricwlwm 7 - 14 oed fel rhan o'i strategaeth i leihau nifer y bobl a gaiff eu hystyried yn bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.**

### Gwella sgiliau'r gweithlu

#### *Sgiliau Sylfaenol*

21. O ran sgiliau sylfaenol, rydym yn croesawu'r cyfaddefiad a wnaeth y Dirprwy Weinidog mewn tystiolaeth lafar bod angen mynd i'r afael â phroblem anferth o ran sgiliau sylfaenol ar unwaith. Nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod y strategaeth sgiliau sylfaenol, hyd yn oed gyda'r pwyslais ar hyfforddi tiwtoriaid, yn ateb y gofyn hwnnw.

22. Mae'r strategaeth ymgynghori yn datgan bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn treialu rhaglen beilot o genhedlaeth newydd o gymwysterau TGAU 'a fydd yn gwneud pynciau 'sylfaenol' fel Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a TGCh yn rhan benodol o addysgu ac asesu, gan sicrhau bod gan bob person ifanc sy'n ymadael â'r ysgol y llythrennedd, y rhifedd a'r sgiliau TG sydd eu hangen arnynt ar gyfer astudio ymhellach neu i gael swydd gyda hyfforddiant.' Fodd bynnag, ni ddywedwyd wrthym beth oedd yn arbennig am y rhaglenni peilot, na pham nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn credu bod pynciau 'sylfaenol' yn benodol yn y cwricwlwm presennol.

23. Cawsom ein calonogi o glywed bod mwy o gyflogwyr yn cymryd rhan yn Addewid y Cyflogwr ar sgiliau sylfaenol a bod tystiolaeth bod eu cynhyrchiant yn gwella o ganlyniad i hyn. Rydym yn cymeradwyo'r ffaith bod hyfforddiant mewn sgiliau sylfaenol ar gael am ddim ac roedd gennym ddiddordeb clywed bod y Gweinidog yn ystyried cyflwyno hawl statudol i hyfforddiant mewn sgiliau sylfaenol.

#### *Cronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF)*

24. Rydym yn croesawu'r penderfyniad i ehangu'r gronfa WULF, gan fod tystiolaeth o'i dylanwad llwyddiannus ar ddysgu i aelodau undebau a chynrychiolwyr dysgu na fyddai fel arall yn cael cyfle i gael hyfforddiant.

#### *Cyllid Ewropeaidd*

25. Ar sail profiad Iwerddon, a ddefnyddiodd gyllid Ewropeaidd i wella sgiliau ei gweithlu a hyrwyddo economi, edrychwn ymlaen at gael

manylion cynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru am arian strwythurol i gyflawni amcanion tebyg.

### *Grisiau Gyrfa Cymru*

26. Rydym yn pryderu am y ffordd y caiff cysyniad Grisiau Gyrfa Cymru ei gyflwyno yn y ddogfen ar y strategaeth ac o'r farn nad yw'r pwyslais a roddir ar hyfforddiant dychwelyd i'r gwaith yn briodol ar gyfer diwallu anghenion cyfredol y gweithlu. Mae'r farn hon yn seiliedig ar dystiolaeth anorchfygol bod llawer, ar ôl cael gwaith, yn gaeth i swyddi cyflogau isel a sgiliau isel. Felly, mae sicrhau llwybrau dysgu er mwyn datblygu unigolion yn rhan hanfodol o unrhyw strategaeth sgiliau a chyflogaeth. **Rydym yn argymell yn gryf i Lywodraeth Cynulliad Cymru y caiff y cynigion ar gyfer Grisiau Gyrfa Cymru eu hailgyflunio fel y caiff y cysyniad ei weithredu fel rhaglen ddatblygu mewn gwaith.**

### *Graddau sylfaen*

27. Mae'r hyn sy'n ymddangos fel diffyg cysondeb o ran uchelgais Llywodraeth Cynulliad Cymru ym maes Graddau Sylfaen yn peri pryder i ni. Deallwn nad yw'r pwerau gan Gymru ar hyn o bryd a fyddai'n caniatáu i golegau addysg bellach wneud hynny ac na wnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru eu ceisio yn ystod taith y Mesur Addysg a Sgiliau drwy'r Senedd. **Gan fod y pwerau eisoes gan golegau addysg bellach yn Lloegr i ddyfarnu graddau sylfaen, a chan ein bod yn dyst i'w cyfraniad amlwg i ddysgu galwedigaethol, amrywiaeth a hyblygrwydd o ran darpariaeth, a hefyd i wella sgiliau'r gweithlu, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymdrechu i gael y pwerau hyn cyn gynted â phosibl.**

### *Ailgyflunio*

28. Yn ei femorandwm ysgrifenedig, dywedodd y Dirprwy Weinidog fod ail-gyflunio'r rhwydwaith dysgu yn gynnig allweddol yn ei strategaeth sgiliau. Roedd hefyd yn gynnig allweddol yn adolygiad Webb. Cydnabu'r Dirprwy Weinidog fod angen gwella capasiti, cwmpas ac ansawdd er mwyn sicrhau'r sgiliau ar gyfer y dyfodol.

29. Bu i nodi, yn unol â chasgliadau adolygiad Webb, bod angen rhywfaint o ad-drefnu rhwng colegau, dosbarth chwech mewn ysgolion a darparwyr hyfforddiant. Fodd bynnag, wedi astudio'r ddogfen ymgynghori a chraffu ar waith y Gweinidog, mae cyfeiriad polisi'r Llywodraeth ar ail-gyflunio yn parhau i fod yn aneglur i'r pwyllgor. **Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyfleu ei sefyllfa'n glir o ran ail-gyflunio, a hynny er mwyn hwyluso gwaith craffu llawnach ar gyfeiriad polisi yn y dyfodol.**

**Ymgysylltu â chyflogwyr**

30. Cawsom dystiolaeth nad oedd gan nifer o gyflogwyr ddiddordeb mewn gwella sgiliau eu gweithlu, gan ei bod yn well ganddynt gadw'u gweithwyr ar gyflogau isel yn hytrach na thalu am eu hyfforddiant a'u datblygiad. Roedd y Dirprwy Weinidog yn cydnabod bod amrywiaeth mawr ar hyn o bryd o ran agweddau cyflogwyr tuag at hyfforddiant yng Nghymru.

31. Ein gobaith oedd ymchwilio, gyda'r Dirprwy Weinidog, i'r faith bod angen i gyflogwyr gyfrannu at wella sgiliau eu gweithlu, a hynny o dan y polisi cyfraniadau newydd. Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog mewn tystiolaeth ar lafar at y rhaglen datblygu'r gweithlu, lle mae cyflogwyr yn talu tua hanner y costau hyfforddi. Yn ei femorandwm ysgrifenedig cawsom ein hysbysu ganddo y byddai'n ehangu'r rhaglen yn unol ag un o argymhellion adolygiad Webb.

**Cynghorau Sgiliau Sector (SSC)**

32. Mae *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru* yn rhagweld rôl allweddol i'r Cynghorau Sgiliau Sector fel 'rhyngwyneb strategol' rhwng cyflogwyr a'r Llywodraeth ac o ran sicrhau bod cymorth busnes a sgiliau yn cael eu harwain fwy gan y galw. Mae hefyd yn disgwyl i'r Cynghorau roi gwybodaeth am y sgiliau presennol a'r sgiliau y bydd eu hangen yn y dyfodol o ran y farchnad lafur.

33. Mae'r pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Dirprwy Weinidog i ddatblygu capasiti'r Cynghorau ac yn falch bod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru uned benodol i gynorthwyo eu rôl sy'n datblygu. Fodd bynnag, tynnwyd sylw at dystiolaeth y craffwyd arni yn ystod ymchwiliad y pwyllgor i gyfraniad economaidd addysg uwch, a'r pryderon mai cymorth afreolaidd a roddir gan y Cynghorau yng Nghymru. Yn ogystal, mae'n ymddangos nad oes gan rai o'r Cynghorau bresenoldeb sydd wedi datblygu'n llawn yng nghyd-destun Cymru, fel y dengys y tabl canlynol a oedd yn gywir pan fu i ni graffu ar y Gweinidog:

| **Swyddfa yng Nghymru o ran Llenyddiaeth Gyhoeddusrwydd** | **Dim Swyddfa yng Nghymru o ran Llenyddiaeth Gyhoeddusrwydd** |
|---|---|
| ■ Skillset (teledu ac ati) | ■ GoSkills (trafnidiaeth i deithwyr) |
| ■ SEMTA (peirianneg ac ati) | ■ Gwasanaethau Ariannol |
| ■ Adeiladu | ■ Ynni a Chyfleustodau |
| ■ Skills Active (Chwaraeon) | ■ Asedau (tai, glanhau) |
| ■ Lantra (amgylchedd) | ■ Skillsmart (adwerthu) |
| ■ Llywodraeth | ■ Creadigol a Diwylliannol |
| ■ Gofal a datblygu | ■ Proskills (gweithgynhyrchu haenau) |

| | |
|---|---|
| ▪ LLUK (llyfrgelloedd, AB, AU, dysgu seiliedig ar waith)<br>▪ Summit (gwasanaethau adeiladu)<br>▪ Cyfiawnder<br>▪ People 1st (lletygarwch, hamdden) | ▪ Cogent (cemegol, olew, nwy)<br>▪ Iechyd<br>▪ Improve (bwyd)<br>▪ Sgiliau modurol<br>▪ e-sgiiau (TG)<br>▪ Logisteg (cludiant nwyddau)<br>▪ Skillfast (tecstilau, dillad) |

34. Mae'n sicr y bydd gennym ddiddordeb yng nghanlyniadau'r broses ailadrodd a fydd yn digwydd i'r holl Gynghorau Sgiliau Sector. **Rydym yn argymell bod yr uned Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am gynorthwyo a chynghori cynghorau Sgiliau Sector yn gweithio gyda bwrdd newydd Cymru o Gomisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau, ac yn defnyddio'r broses ail-drwyddedu er mwyn sicrhau y gall y Cynghorau gyflawni'r rôl a nodwyd ar eu cyfer yn y strategaeth ymgynghori.**

**Y cynllun gweithredu sgiliau newydd**

35. Mae'r pwyllgor yn ymwybodol mai'r prif ganlyniad a fwriedir ar gyfer yr ymgynghoriad hwn fydd cynllun gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar sgiliau a chyflogaeth. Nod y pwyllgor fydd craffu ar y cynllun gweithredu unwaith y caiff ei gyhoeddi. Os oes angen, byddwn yn galw'r Dirprwy Weinidog yn ôl ac os bydd gennym unrhyw bryderon, byddwn yn cynnal ymchwiliad dilynol er mwyn mesur y cynnydd. **Felly, rydym yn argymell yn gryf bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys targedau cadarn ac amserlen fanwl yn ei chynllun gweithredu sgiliau newydd er mwyn gallu mesur a monitro'r cynnydd.**

**Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)**

36. Gan fod polisi cyflogaeth yn fater a gadwyd yn ôl, teimlad y pwyllgor oedd ei bod yn briodol craffu ar waith cynrychiolydd o adran Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod gweithwyr yn meddu ar y sgiliau a'r cymhelliant i wneud cyfraniad cadarnhaol i'r economi. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym ei fod o'r farn bod cydgysylltu'r gwasanaeth cyflogaeth a'r ddarpariaeth sgiliau yn allweddol a'i fod yn edrych ymlaen at barhau i gydweithio â DWP. Cawsom ein calonogi gan dystiolaeth lafar Stephen Martin, pan ddywedodd ei fod o'r farn bod yna berthynas gadarnhaol rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r DWP, yn arbennig o ran darparu'r Ganolfan Byd Gwaith.

37. Mae'n glir i ni, o femorandwm ysgrifenedig DWP a'i thystiolaeth lafar y bydd diwygiad mawr yn y polisïau lles a chyflogaeth yn ystod y flwyddyn nesaf. Edrychwn ymlaen yn arbennig at weld gwerthusiad buan o'r asesiad gallu i weithio newydd i hawlwyr newydd y lwfans cyflogaeth a chymorth.

38. Mae'r newidiadau ar gyfer rhieni unigol sy'n cael cymhorthdal incwm yn peri peth pryder i ni, o gofio'r diffyg cymorth ar gyfer gofal plant, sef un o'r taliadau uchaf ar gyfer y sector hwn o'r gweithlu. **Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gofyn i DWP ystyried enghreifftiau rhyngwladol o arfer da ac ailystyried sut y gall gynorthwyo rhieni unigol yn fwy priodol, gan fod gofal plant yn llai fforddiadwy yn y DU nag yn unman arall.**

39**. Rydym yn argymell ymhellach bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyflwyno sylwadau i DWP fel ei bod yn ystyried peidio â gosod sancsiynau ar gyrsiau hyfforddi nad ydynt yn darparu cyfleusterau crèche.**

**Crynodeb o'r argymhellion**

40. O ganlyniad i'r dystiolaeth a gafwyd ac y craffwyd arni, mae'r Pwyllgor yn gwneud yr argymhellion canlynol i Lywodraeth Cynulliad Cymru:

- **Cytunwn mewn egwyddor y dylid codi'r meicnod ar gyfer sgiliau canolradd o lefel 2 i lefel 3 a chan gydnabod y gallai hyn beri anawsterau i rai sectorau, argymhellwn y dylai'r Dirprwy Weinidog gynnwys yr uchelgais hwn yn ei gynllun gweithredu sgiliau newydd a nodi amserlen glir ar gyfer ei gyflawni.**

- **Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i gynyddu cynrychiolaeth Cymru ar Gomisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau.**

- **Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi ymateb clir a llawn i adolygid Webb cyn gynted â phosibl, gan nodi beth yw'r gwahaniaethau rhwng ei strategaeth sgiliau a chyflogaeth ei hun ac argymhellion yr adolygiad.**

- **Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ailystyried ei barn ar beidio â chyhoeddi amserlen bendant o ran ei nod hirdymor o sicrhau cyflogaeth lawn ac yn cyhoeddi amserlen bendant yn ei chynllun gweithredu.**

- **Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad yn mynd i'r afael â'r angen i ddiwygio'r cwricwlwm 7 – 14 oed fel rhan o'i strategaeth i leihau nifer y bobl a gaiff eu hystyried yn bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.**

- **Rydym yn argymell yn gryf i Lywodraeth Cynulliad Cymru y caiff y cynigion ar gyfer Grisiau Gyrfa Cymru eu hailgyflunio fel y caiff y cysyniad ei weithredu fel rhaglen ddatblygu mewn gwaith.**

- **Gan fod y pwerau eisoes gan golegau addysg bellach yn Lloegr i ddyfarnu graddau sylfaen, a chan ein bod yn dyst i'w cyfraniad amlwg i ddysgu galwedigaethol, amrywiaeth a hyblygrwydd o ran darpariaeth, a hefyd i wella sgiliau'r gweithlu, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymdrechu i gael y pwerau hyn cyn gynted â phosibl.**

- **Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyfleu ei sefyllfa'n glir o ran ail-gyflunio, a hynny er mwyn hwyluso gwaith craffu llawnach o gyfeiriad polisi yn y dyfodol.**

- **Rydym yn argymell bod yr uned Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am gynorthwyo a chynghori cynghorau Sgiliau Sector yn gweithio gyda bwrdd newydd Cymru o Gomisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau, ac yn defnyddio'r broses ail-drwyddedu er mwyn sicrhau y gall y Cynghorau gyflawni'r rôl a nodwyd ar eu cyfer yn y strategaeth ymgynghori.**

- **Felly, rydym yn argymell yn gryf bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys targedau cadarn ac amserlen fanwl yn ei chynllun gweithredu sgiliau newydd er mwyn gallu mesur a monitro'r cynnydd.**

- **Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gofyn i DWP ystyried enghreifftiau rhyngwladol o arfer da ac yn ailystyried sut y gall gynorthwyo rhieni unigol yn fwy priodol, gan fod gofal plant yn llai fforddiadwy yn y DU nag yn unman arall.**

- **Rydym yn argymell ymhellach bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyflwyno sylwadau i DWP fel ei bod yn ystyried peidio â gosod sancsiynau ar gyrsiau hyfforddi nad ydynt yn darparu cyfleusterau crèche.**

## ATODIADAU

### Atodiad 1 – Rhagor o wybodaeth a ddarparwyd gan y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau

Yn unol â phrotocol y Pwyllgor gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, darparwyd y wybodaeth erbyn 28 Mawrth 2008, ond yn Saesneg yn unig.

### Atodiad 2 – Memoranda Ysgrifenedig

**Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau**:
http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third-assem/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=75655&ds=2/2008

**Yr Adran Gwaith a Phensiynau**:
http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third-assem/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=75672&ds=2/2008

### Atodiad 3 – Trawsgrifiadau o'r trafodion

**Cyfarfod pwyllgor, 27 Chwefror 2008**:
http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third-assem/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=77690&ds=2/2008

**Dadl y Cyfarfod Llawn, 4 Mawrth 2008**:
http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-chamber/bus-chamber-third-assembly-rop.htm?act=dis&id=77885&ds=3/2008